Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

**Gwybodaeth i Gleifion**

# Llid y Gyfbilen

**Uned Llygaid**

---

**Beth yw llid y gyfbilen?**
Haint ar y rhan gwyn yn y llygaid ydyw. Mae'n bosib y byddwch yn cael y canlynol:

- cochni
- teimlad grutiog
- rhedlif

**Beth yw achos llid y gyfbilen?**
Yn gyffredinol mae'n deillio o haint neu alergedd.

**Llid y Gyfbilen Bacterol / Firol**
Gall llid heintus y gyfbilen ddeillio o firws neu facteria ac mae'n aml yn gysylltiedig ag annwyd a gwddf tost.

**Llid alergaidd y gyfbilen**
Yn gyffredinol yn y gwanwyn neu haf y gwelir hwn fwyaf ac mae'n gysylltiedig â chlefyd y gwair.

**Pa fath o driniaeth sydd ei hangen?**
Bydd hyn yn dibynnu ar ba fath o lid y gyfbilen sydd gennych.

**Llid Bacterol y Gyfbilen**
Mae hwn yn ymateb yn gyflym iawn i ddiferion gwrthfiotig a dylai wella cyn pen pedwar i bum diwrnod.

**Llid Firol y Gyfbilen**
Nid oes unrhyw ddiferion nac elïau i iachau llid firol y gyfbilen. Fel arfer bydd yr haint hwn yn gwella ar ei ben ei hun ond gall gymryd sawl wythnos. Rhoddir diferion gwrthfiotig i amddiffyn y llygaid rhag heintiau bacterol eraill.

**Llid alergaidd y gyfbilen**
Mae hwn fel arfer yn ymateb yn dda i ddiferion gwrth-alergedd ond mae'n bosib y bydd angen triniaeth fwy hirdymor.

**Ydy llid heintus y gyfbilen yn ymledol?**

Ydy, gellir ei drosglwyddo i berson arall yn ddigon hawdd drwy gyffwrdd ac felly mae dilyn y cyfarwyddiadau yma yn bwysig.

1. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar eich diferion.
2. Peidiwch â gadael i unrhyw un arall ddefnyddio'r diferion.
3. Peidiwch â rhannu clustogau, tywelion na chadachau gwlanen dan glefyd.
4. Golchwch eich dwylo'n rheolaidd i osgoi lledaenu'r haint i eraill.
5. Dylech annog plant i beidio â rhwbio neu gyffwrdd y llygaid i osgoi heintio.

**O ble caf ragor o gyngor?**
Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch cysylltwch ag:-

Clinig Llygaid Brys:- Ffôn:- 01633 238413
Rhwng 8.30am a 5.30 pm

**NODIADAU PERSONOL**

________________________________________________

________________________________________________

________________________________________________

________________________________________________

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English".**